



Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR)

Amgylchedd (Gwasanaethau Menter ac Arbenigol)

Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), Windsor Road, Cogan, Penarth

CYF: **Aseiad Manwl**; Diddymiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) Windsor Road, Cogan,
Penarth

Tabl Cynnwys

Cefndir Rheoli Ansawdd Aer Lleol (RhAALI) ym Mro Morgannwg	Error! Bookmark not defined.
Datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA)	Error! Bookmark not defined.
Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) Windsor Road, Cogan, Penarth	Error! Bookmark not defined.
Penderfyniad i Ddiddymu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Windsor Road, Cogan, Penarth	Error! Bookmark not defined.
Asesiad Manwl a Chanlyniadau	Error! Bookmark not defined.
Camau Nesaf	Error! Bookmark not defined.
Amserlen Ragarweiniol	Error! Bookmark not defined.

Ffigyrau

Ffigur 1- Penarth, ARhAA Windsor Road (datganwyd 1 Awst 2013).....	Error! Bookmark not defined.
--	-------------------------------------

Tablau

Tabl 1- Amcanion ansawdd aer cenedlaethol a gynhwyswyd yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygiad) 2002. ...	Error! Bookmark not defined.
---	-------------------------------------

Cefndir i Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol (RhAALI) ym Mro Morgannwg

Mae gan Wasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar ran Cyngor Bro Morgannwg (CBB) ddyletswydd statudol dan Ran IV Deddf yr Amgylchedd 1995 a'r Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon 2007 i sicrhau bod rhaglen o Reoli Ansawdd Aer yn Lleol yn cael ei gweithredu.

Dan Adran 82 Deddf yr Amgylchedd 1995 mae rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu yn rheolaidd ansawdd yr aer yn eu hardaloedd, a phenderfynu a yw amcanion o ran ansawdd aer yn debygol o gael eu cyflawni ai peidio.

Mae'r amcanion sy'n berthnasol o ran Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yng Nghymru wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138) a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygiad) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298).

Tabl 1 – Amcanion ansawdd aer cenedlaethol a gynhwysir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygiad) 2002.

Llygrwr	Amcan Ansawdd Aer	
	Crynodeiad	Mesurwyd fel
Benzene	16.25 µg/m ³	cymedr blynyddol rhedegol
	5 µg/m ³	cymedr blynyddol
1,3-Butadiene	2.25 µg/m ³	cymedr blynyddol rhedegol
Carbon Monocsid	10 mg/m ³	cymedr 8-awr rhedegol dyddiol ar ei fwyaf
Plwm	0.25 µg/m ³	cymedr blynyddol
Nitrogen diocsid	200 µg/m ³ – ni ddylid pasio'r pwynt hwn fwy na 18 gwaith y flwyddyn	Cymedr 1 awr
	40 µg/m ³	cymedr blynyddol
Gronynnau (PM ₁₀) (gravimetrig)	50 µg/m ³ – ni ddylid pasio'r pwynt hwn fwy na 35 y flwyddyn	Cymedr 24 awr
	40 µg/m ³ (Canllaw WHO 20 µg/m ³)	cymedr blynyddol
Sylffwr Deuocsid	266 µg/m ³ – ni ddylid pasio'r pwynt hwn fwy na 35 gwaith y flwyddyn	Cymedr 15 munud
	350 µg/m ³ – ni ddylid pasio'r pwynt hwn fwy na 24 gwaith y flwyddyn	Cymedr 1 awr
	125 µg/m ³ – ni ddylid pasio'r pwynt hwn fwy na 3 gwaith y flwyddyn (Canllaw WHO 20 µg/m ³)	Cymedr 24 awr

Lle mae'r adolygiadau o'r ansawdd aer yn awgrymu na fydd yr amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni, neu'n annhebygol o gael eu cyflawni, mae hi'n ofynnol dan Adran 83 Deddf 1995 i awdurdodau lleol ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ('ARhAA'). Mae Adran 84 o'r Ddeddf yn sicrhau y dylid cymryd camau wedyn ar lefel leol, ac amlinellir hyn mewn Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) penodol i sicrhau bod ansawdd aer mewn ardal benodol yn gwell.

Mae DEFRA – Adran Bwyd, Amgylchedd a Materion Gwledig y DU wedi cynhyrchu dogfen ganllaw sy'n rhoi fframwaith i bob awdurdod lleol sy'n ymwneud â rheoli ansawdd aer yn lleol - **“Local Air Quality Management Technical Guidance (TG 16).”** Mae'r canllaw yn rhestru llygryddion yn y DU a'r amcanion cysylltiedig o ran ansawdd aer, ynghyd â lle dylai'r amcanion ansawdd aer hyn fod yn gymwys.

Yn unol â'r canllaw hwn, mae GRhR ar ran CBM ar hyn o bryd yn monitro'n rheolaidd lleoliadau penodol ledled y Fro gan ddefnyddio egwyddorion awtomataidd a rhai nad ydynt yn awtomataidd ar gyfer Nitrogen Diocsid (NO₂) a Mater Gronynnol (PM₁₀) yn yr aer amgylchol.

O ran blaenoriaethau lleoliadau samplu ansawdd aer amgylchol, mae gan y Cyngor ddull ar sail risg wrth ddyrannu unrhyw safleoedd monitro, gan ystyried gofynion Canllaw Technegol Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol, Chwefror 2018. Mae'r ddogfen yn datgan y dylai amcanion cymedr blynyddol fod yn gymwys “Ymhob lleoliad lle byddai aelodau o'r cyhoedd yno'n rheolaidd. Wynebaw adeiladau fel eiddo preswyl, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal ac ati.”

Box 1.1 – Examples of Where the Air Quality Objectives Should Apply

Averaging Period	Objectives should apply at:	Objectives should generally not apply at:
Annual mean	All locations where members of the public might be regularly exposed. Building façades of residential properties, schools, hospitals, care homes etc.	Building façades of offices or other places of work where members of the public do not have regular access. Hotels, unless people live there as their permanent residence. Gardens of residential properties. Kerbside sites (as opposed to locations at the building façade), or any other location where public exposure is expected to be short term.
24-hour mean and 8-hour mean	All locations where the annual mean objective would apply, together with hotels. Gardens of residential properties ¹⁰ .	Kerbside sites (as opposed to locations at the building façade), or any other location where public exposure is expected to be short term.
1-hour mean	All locations where the annual mean and: 24 and 8-hour mean objectives apply. Kerbside sites (for example, pavements of busy shopping streets). Those parts of car parks, bus stations and railway stations etc. which are not fully enclosed, where members of the public might reasonably be expected to spend one hour or more. Any outdoor locations where members of the public might reasonably be expected to spend one hour or longer.	Kerbside sites where the public would not be expected to have regular access.
15-min mean	All locations where members of the public might reasonably be exposed for a period of 15 minutes or longer.	

Datgan Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (ARhAA)

Mae Canllaw Polisi¹ Llywodraeth Cymru (LIC) yn datgan;

4.8 Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol, drwy orchymyn, benodi unrhyw ran o'i ardal fel ardal rheoli ansawdd aer lle y mae'n ymddangos nad yw un neu fwy o'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu cyflawni, neu nad ydynt yn debygol o gael eu cyflawni.

4.11 Dylai Awdurdodau Lleol ddatgan neu ymestyn ardal rheoli ansawdd aer cyn gynted â phosibl ar ôl cydnabod yr angen iddi gael ei datgan neu ei hymestyn Dylid cyflwyno copi o'r adroddiad ardal rheoli ansawdd aer newydd i Lywodraeth Cymru a Defra, ynghyd â ffeil siâp GIS o ffin yr ardal rheoli ansawdd aer. Mae'n rhaid i'r gorchymyn hefyd gael ei wneud yn gyhoeddus a dylid tynnu sylw pobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn ffin yr ardal rheoli ansawdd aer at y gorchymyn hwn

Ar sail lefelau cyfartaledd blynyddol NO₂ a gafodd eu dyrchafu a'u pasio, yn unol â Chanllawiau Polisi LIC a Deddf yr Amgylchedd 1995, roedd gofyn i GRhR / CBM ddatgan yn gyfreithiol Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) ar gyfer Windsor Road, Cogan, Penarth, ac wrth wneud hynny godi gorchymyn ARhAA sy'n diffinio manylion a lleoliad y ARhAA.


Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), Windsor Road, Cogan, Penarth

Ar sail canlyniadau monitro ac asesiadau manwl pellach, ar hyn o bryd un Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) sydd wedi'i ddatgan ym Mro Morgannwg, a gafodd ei ddatgan ar sail y ffaith bod Safon Ansawdd Aer o ran nitrogen diocsid cymedr blynyddol wedi cael ei basio (**40ug/m3**), a hynny'n deillio o drafndiaeth ar y ffyrdd.

Mae ffin ARhAA Windsor Road, Cogan, Penarth yn cynnwys yr eiddo hynny sy'n rhedeg o rifau eilrif 100 i 172 ar un ochr o Windsor Road, Cogan, Penarth, ac odrifau 15-163 ar y llall.

Ffigur 1 – ArhAA Windsor Road, Cogan, Penarth (gafodd ei ddatgan ar 1 Awst 2013)

¹ <https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/170614-policy-guidance-cy.pdf>



Penderfyniad i Ddiddymu ARhAA Windsor Road, Cogon, Penarth


Mae Canllaw Polisi Lleol Llywodraeth Cymru (LIC), "Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru" Mehefin 2017 yn dweud;

4.14 *Dylai Awdurdodau Lleol sy'n dymuno dirymu neu leihau ardal rheoli ansawdd aer wneud hynny gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn unig, yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad â'r cymunedau lleol yr effeithir arnynt. Dylai'r adolygiad ddangos yn glir bod yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu bodloni ac y byddant yn parhau i gael eu bodloni. Mewn geiriau eraill, dylai'r Awdurdod Lleol fod yn hyderus y gellir cynnal y gwelliannau a arsylwyd. Fel arfer, mae hyn yn gofyn am dair blynedd neu fwy o gydymffurfiaeth lawn, ond unwaith y cytunwyd ar y dirymiad neu'r lleihad gan Lywodraeth Cymru, dylai ddigwydd heb oedi. Yn dilyn dirymiad, dylai'r Awdurdod Lleol, yn ddelfrydol, roi strategaeth ansawdd aer lleol neu ranbarthol ar waith i sicrhau bod ansawdd aer yn parhau i fod yn fater proffil uchel a bod yr amodau yn cael eu hatal rhag gwaethygu yn y dyfodol.*

Ers 2014, mae crynodiadau NO₂, yn arbennig ar hyd Windsor Road wedi sefydlogi o dan werthoedd cyfyngedig y Safon Ansawdd Aer (SAA) (ni ddylid mynd yn uwch na'r cyfartaledd blynyddoedd o 40µg/m³ a chyfartaledd 1 awr 200µg/m³ yn amlach na 18 gwaith y flwyddyn). Oherwydd cydymffurfio parhaus, yn unol â Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru, Canllaw Polisi Mehefin 2017, mae Cyngor Bro Morgannwg (CBM) yn dymuno diddymu ARhAA Windsor Road, Penarth.

Error! Reference source not found. Mae Ffigur 2 yn dangos y setiau data NO₂ cyfartalog blynyddol a gofnodwyd ar wynebau tai o fewn ARhAA Windsor Road. Mae'r graff yn dangos cydymffurfio â'r amcan cyfartalog blynyddol ym mhob lleoliad a fonitryd ers 2013.

Ffigur 2 Lefelau cyfartalog blynyddol NO₂ a archwiliwyd ar wynebau tai ar Windsor Road, Penarth



Er mwyn bwrw mlaen â diddymu'n ffurfiol ARhAA Windsor Road, Cogan, Penarth, yn unol â gofynion LLC, paratowyd adroddiad manwl i benderfynu'n derfynol ar ddiddymu'r ARhAA

Asesiad Manwl a Chasgliadau

Comisiynwyd ymgynghorwyr ansawdd aer proffesiynol allanol gan GBM i gwblhau astudiaeth fanwl o'r ansawdd aer i lywio'r penderfyniad i ddiddymu'r ARhAA ai peidio.

Defnyddiwyd technegau arfer gorau a chanllawiau wrth wneud yr asesiad er mwyn sicrhau canlyniad ceidwadol. Yn unol â Safonau Ansawdd Aer Cymreig, archwiliwyd crynodiadau o NO₂ a PM₁₀ mewn 28 lleoliad derbyn sensitif, wedi'u lleoli'n ddaearyddol o fewn, ac yn agos at y ffin ARhAA. Mae'r adroddiad yn ystyried lefelau adrodd blaenorol ac yn defnyddio meddalwedd modelu gwasgariad ansawdd aer (ADMS-Roads, Fersiwn 4.1.1), a'r ffactorau allyrru diweddaraf (Fersiwn 9.0) i edrych ar grynodiadau llygrwyr cyfredol a chrynodiadau a amcanestynnir. Dewiswyd tair senario blynyddoedd modelu ar gyfer yr astudiaeth hon (2018, 2023 a 2028).

Mae'r crynodiadau o NO₂ a PM₁₀ a ragwelir ymhob derbynnydd wedi'i fodelu o fewn ARhAA Windsor Road, Cogan, Penarth yn dipyn is nag amcanion SAA cymedr blynyddol a byr dymor ar gyfer senario pob blwyddyn wedi'u modelu.

Gan ei bod yn debygol y bydd cydymffurfio parhaus â'r safonau ansawdd aer argymhellir diddymu'r ARhAA yn Windsor Road, Cogan, Penarth.

Camau Nesaf

-Bydd CBM / GRhR yn rhoi'r penderfyniad ar waith i ddiddymu ARhAA Windsor Road, Cogan, Penarth:

-Bydd yr asesiad manwl a'r hysbysiad o'r penderfyniad i ddiddymu'r ARhAA ar gael i'r cyhoedd am 6 wythnos o ymgynghoriad. Bydd yr holl wybodaeth sy'n cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei hysbysebu ar dudalennau gwe GRhR / CBM. Bydd pobl yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy e-bostio cyfeiriad e-bost arbennig fydd yn cael ei reoli gan Dîm Gwasanaethau Arbenigol GRhR.

-Caiff aelodau cabinet CBM eu briffio ar ôl y cyfnod ymgynghori ac unwaith i'r argymhelliad i ddiddymu ARhAA Windsor Road, Cogan, Penarth gael ei gymeradwyo, caiff yr hysbysiad am y penderfyniad i ddiddymu'r ARhAA ei gyflwyno'n ffurfio i LC;

-Bydd monitro nad yw'n awtomataidd gyda thiwbiau trylediad yn parhau ar hyd Windsor Road, Penarth. Fodd bynnag, bydd y safle monitro awtomataidd ar Windsor Road yn cael ei ddatgomiynu a'i ddisodli mewn lleoliad amgen.

Amserlen a Fwriedir

